Rebecca Evans UG/MS
A Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Y Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.wales

15 Mehefin 2022

Annwyl Gadeirydd

Canlyniad cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, dyma roi gwybod bod y Gweinidog Newid Hinsawdd a minnau wedi cynrychioli Llywodraeth Cymru yng nghyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar 24 Mai 2022.

Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Tai a Llywodraeth Leol, Shona Robison ASA a'r Gweinidog dros Nawdd Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Ben Macpherson ASA, yn bresennol ar ran Llywodraeth yr Alban. Roedd y Gweinidog Cymunedau, Deirdre Hargey ACD a'r Gweinidog Cyllid, Conor Murphy ACD, yn cynrychioli Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Y Gwir Anrhydeddus Michael Gove, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro a'r Gweinidog dros Gysylltiadau Rhynglywodraethol a gadeiriodd y cyfarfod rhithwir – yng nghwmni'r Gweinidog dros Ffyniant Bro, y Cyfansoddiad a'r Undeb, Neil O'Brien AS; a'r Gweinidog dros Ddiogelwch Adeiladau a Thân, yr Arglwydd Greenhalgh.

Trafododd y grŵp eu ffyrdd o weithio yn y dyfodol, ar sail y canlyniadau y cytunwyd arnynt yn sgil yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol. Penderfynodd y grŵp gyfarfod bob chwarter, a chytunais y byddai Llywodraeth Cymru yn cynnal y cyfarfod nesaf.

Diogelwch Adeiladau oedd y brif eitem ar yr agenda. Roedd y grŵp yn cydnabod ei fod yn fater a rennir sy'n effeithio ar bob llywodraeth a bod gennym nod ar y cyd i ddwyn y diwydiant i gyfrif ac amddiffyn preswylwyr. O ystyried y tebygrwydd cyffredinol ar draws ein systemau, pwysleisiodd y Gweinidog Newid Hinsawdd bod angen cydweithio'n well ar y materion a gadwyd yn ôl mewn perthynas â diogelwch adeiladau, gan gynnwys yswiriant a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / Y Ganolfan Pwynt Cyswllt Cyntaf:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.cymru
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi cyn ymateb.

benthyca. Tynnodd sylw at bryderon a nodwyd o'r blaen ynghylch yr angen i Lywodraeth Cymru gael ei chynnwys mewn trafodaethau a gynhelir rhwng Llywodraeth y DU a datblygwyr eiddo sy'n ymwneud â chael eu cytundeb i ariannu ac atgyweirio pob adeilad dros 11 metr y maent wedi chwarae rhan yn y gwaith o'u datblygu.

Bydd swyddogion yr Ysgrifenyddiaeth yn gweithio ar ran y pedair gwlad i gytuno ar yr hyn y roddir sylw iddo yn y cyfarfod nesaf a gynhelir yn yr hydref.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr hyn a gafodd ei drafod yn y cyfarfod yma.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol